



yr Athro

Y Gynhadledd Flynyddol

Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd ein Cynhadledd Flynyddol yn cael ei chynnal wyneb yn wyneb eleni, yng Ngwesty'r Coldra Court, Casnewydd. Hon yw'r Gynhadledd gyflawn gyntaf i gael ei chynnal ers cyn y cyfnod clo. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu **Meredudd Jones**, Pennaeth TG a Chydgysylltydd Sgiliau Digidol ac **Alan Thomas Williams** Swyddog Cwricwlwm, Cyngor Caerdydd yn siaradwyr gwadd.

Mae croeso mawr i bawb sy'n aelod o UCAC ac mae'n gyfle gwych i chi gymdeithasu, sgwrsio a rhannu profiadau gyda chyd-aelodau a llawer mwy...

Os hoffech ymuno â ni – cysylltwch ag ucac@ucac.cymru 01970 639 950 neu archebwch le wrth ddilyn y cod QR sydd i'w weld yn y rhifyn hwn.

**CYNHADLEDD
FLYNYDDOL UCAC**

5-6 o Fai 2023

**Gwesty'r Coldra Court
Casnewydd**

**YR YSGOL
DDIGIDOL**

Meredudd Jones
Pennaeth TG a Chydgysylltydd Sgiliau Digidol

Alan Thomas Williams
Swyddog Cwricwlwm,
Cyngor Sir Caerdydd

**CARDIFF
CAERDYDD**

**COLDRA COURT HOTEL
BY LLECHYR**

Croeso i bawb - archebwch eich lle nawr - ucac@ucac.cymru

Y Cyfrifiad, Y Gymraeg ac Addysg Siom – Her – Sbardun – Ysbrydoliaeth

Canlyniad Siomedig

O gymharu canlyniad 2021 gyda chanlyniad 2011, rydym yn gweld erbyn hyn fod:

- llai yn gallu siarad Cymraeg
- gostyngiad o chwe phwynt canran mewn plant rhwng 5 a 15 oed y nodwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg a
- gostyngiad tebyg ar gyfer plant tair i bedair oed.

Dyna ystadegau a'n siomodd wrth i ganlyniadau'r cyfrifiad gael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr.

Ond mae'n rhaid peidio â digalonni.

RHESYMAU DROS DDAL ATI A BOD YN OBEITHIOL

- Gallai llwyddiant fod wedi ein gwneud yn hunanfodlon a dyna'r peth diwethaf y byddem yn ei ddymuno.
- Mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth na'r hyn y mae'r ystadegau yn eu datgelu. Er bod canlyniadau cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad o 5.7 pwynt canran ers 2011 yng nghyfran y plant tair i bymtheg oed sy'n siarad Cymraeg, eto ar yr un pryd mae data Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd o 10,000 yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith dros gyfnod tebyg. Pa ystadegyn sy'n gywir?

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Heulwen Howells

Is-Lwydd: Geraint Phillips

Ysgrifennydd Cyffredinol: Ioan Rhys Jones

Is-ysgrifennydd Cyffredinol: Mererid Lewis Davies

Cydllynydd Yr Athro: Iona Davies


Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC. Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

Beth yw'r Her sy'n ein Hwynebu?

Yn ôl cyfrifiad 2021, 34.3% o siaradwyr Cymraeg oedran ysgol 3-15 oed yn unig sy'n gallu siarad Cymraeg a'r her yw cynyddu'r nifer yma'n sylweddol. Os yw Llywodraeth Cymru am daro ei tharged o filiwn o siaradwyr, bydd angen cynyddu'r ganran hon yn sylweddol, a sicrhau bod ein dysgwyr nid yn unig yn caffael yr iaith ond hefyd yn parhau i'w defnyddio wrth iddynt adael y system addysg.



Miliwn o Siaradwyr Cymraeg - Yr Her i Fyd Addysg

Yn ei dogfen Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r targedau canlynol

- Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 150 yn fwy o grwpiau meithrin
- Cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg i 30% erbyn 2031
- Gweddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny, erbyn 2050, yn gallu siarad Cymraeg pan fônt yn gadael yr ysgol
- Cynyddu nifer yr athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 ac i 5,200 erbyn 2050
- Cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg o 500 i 900 erbyn 2031 ac i 1,200 erbyn 2050
- Cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3, 200 erbyn 2031 ac i 4, 200 erbyn 2050

Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi gorfod ymateb i'r heriau uchod ac wedi nodi eu cynlluniau yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae pob sir yn dechrau o fan gwahanol ac mae'r targedau ar gyfer 2032 yn amrywio o darged o 100% o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngheredigion, Môn a Gwynedd i lawr i darged o 11% yn rhai o'r ardaloedd mwyaf Seisnig.

Gyda llwyth gwaith cynyddol a phroblemau eraill yn wynebu byd addysg, mae recriwtio athrawon yn her ym mhob sector ac mewn ysgolion o bob categori. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, fod cynyddu nifer y staff sy'n gallu addysgu Cymraeg yn fwy o her fyth. Sut ydyn ni'n mynd i wneud hyn?

Mae rhai o'r CSCAu yn uchelgeisiol ac yn benodol ac eraill yn fwy cyffredinol. Yn ôl y Gweinidog Addysg, mae'r awdurdodau lleol yn ymrwymedig i gyflawni eu targedau 'A gweithredu ar eu hymrwymadau yw'r union beth maen nhw'n bwriadu ei wneud.' Gellir cael gafael ar y drafodaeth yn llawn drwy ddilyn y ddolen -

<https://record.senedd.wales/Plenary/13191#A77362>



Sbardun

Mae canlyniadau'r cyfrifiad wedi bod yn sbardun i drafodaeth, dadansoddiad a chwilio am atebion. Mae pwysigrwydd y Gymraeg o fewn y sector addysg wedi bod yn thema gyson yn y dadansoddiadau hyn.

Mae'n amlwg bod gan addysg ran i'w chwarae wrth geisio cyflawni'r uchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ar y llaw arall, mae'n rhaid cydnabod nad drwy fyd addysg yn unig

y mae sicrhau parhad y Gymraeg a'r cynnydd yn nifer ei siaradwyr. Mae'n bwysig, er enghraifft, fod rhieni'n trosglwyddo'r iaith i'w plant. Mae'n bwysig hefyd fod gan y sawl sydd wedi dysgu Cymraeg yn ein hysgolion gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wedi iddynt adael yr ysgol.

Dyma ddeholiad o ymatebion sy'n dangos pwysigrwydd addysg:

Dafydd Iwan

"Er fy mod i yn obeithiol am ddyfodol yr iaith, mae angen mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac mae'r awdurdodau lleol yn llusgo eu traed.

"Nid un ateb syml sydd yna i broblem yr iaith. Yn y pendraw, os nag oes ysgolion sydd yn dysgu Cymraeg a hanes Cymru i'n plant ni, does dim llawer o ddyfodol i ni."

Ychwanegodd na ddylai pobl "anobeithio", fodd bynnag.

Llywodraeth Cymru

Wrth ymateb i sylwadau Dafydd Iwan dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru bod gan ysgolion Cymraeg ym mhob rhan o Gymru "ran allweddol" i'w chwarae wrth geisio cyrraedd eu targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Ychwanegodd bod bwriad i agor 23 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn y degawd nesaf, wrth i siroedd ar draws y wlad ehangu darpariaeth addysg Gymraeg.

Comisiynydd Yr Iaith Gymraeg

Dylai pob athro yng Nghymru gael "rhywfaint o hyfforddiant" yn y Gymraeg cyn iddyn nhw basio eu cwrs dysgu, yn ôl Comisiynydd y Gymraeg newydd.

Dywedodd Efa Gruffudd Jones y byddai hynny'n un ffordd o daclo prinder yr athrawon sy'n gymwys i ddysgu drwy'r iaith - un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r amcan o ehangu addysg Gymraeg.

"Mae'n glir i fi er enghraifft bod gwaith i'w wneud o ran gwella ansawdd dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion di-Gymraeg," meddai wrth siarad ar raglen Dros Frecwast BBC Radio Cymru.

Cyngor Y Gweithlu Addysg

Yn 2021 fe wnaeth ffigyrau Cyngor y Gweithlu Addysg ddangos bod 33.5% o athrawon yng Nghymru'n gallu siarad Cymraeg, a 27.1% yn gallu dysgu drwy'r Gymraeg - ffigyrau sydd wedi bod fwy neu lai'n gyson dros y pum mlynedd diwethaf.

Mewn ymateb i sylwadau Efa Gruffudd Jones, dywedodd llefarydd ar ran Cyngor y Gweithlu Addysg bod athrawon dan hyfforddiant yn cael "eu hasesu ar eu sgiliau iaith Gymraeg", a'u "cefnogi i ddatblygu eu sgiliau".

CYMRAGU

Ysbrydoliaeth



Iona Llŷr – Arweinydd Tîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg

Mae aelodau UCAC yn gweithio'n ddiwyd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cyfrannu'n ymarferol a real iawn at yr ymdrech i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

Dyma enghraifft i'n hysbrydoli i gyd i ddal ati.

Ysbrydoliaeth

Un sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol yn ddiweddar am ei gwaith o ysbrydoli disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yw Iona Llŷr. Mae hi a'i thîm brwdfrydig wedi gwneud gwaith pwysig yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg nid yn unig yn y dosbarth, ond hefyd mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Mae Iona wedi gwneud gwahaniaeth enfawr ar draws yr awdurdod lleol, gan ennyn hyder dysgwyr ac athrawon Cymraeg ar bob lefel.

Ysbrydoliaeth

Dyma Iona'n dweud ychydig am ei phrofiad:

"Mae'n anodd credu mod i wedi cymhwyso fel athrawes gynradd ers 1987 ac wedi bod yn Athrawes Fro yn Sir Gaerfyrddin ers dechrau Medi 1989. Yng nghanolfan Llanymddyfri ddechreuas i a bryd hynny roedd yna chwech o Ganolfannau Iaith yn y Sir a thros bump ar hugain o Athrawon Bro yn y tîm. Erbyn hyn mae'n teitl ni wedi newid, ein rôl ni wedi ehangu a bellach rwy'n ddigon ffodus i arwain Tîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg Sir Gâr.

Rwy wastad wedi dwlu ar ddysgu, yn dwlu ar gwmni plant a phobl ifanc, yn dwlu meddwl am ffyrdd cyffrous, gwahanol o gyflwyno iaith. Does dim swydd debyg iddi. Ers dyddie fy ymarfer dysgu yn ysgol Parc Y Bont, Llanedwen o dan adain warchodol Mrs Nan Hughes y brifathrawes, mae'r swydd wedi cyffroi a thanio'r dychymyg. Er gwaetha'r anawsterau sy'n ein hwynebu ni heddi mae dysgu yn dal yn broffesiwn cwbl sbesial. Y cyfle hwnnw sydd gyda ni i allu gwneud gwahaniaeth, i allu newid agweddau, i arfogi ac i ysbrydoli.

Mae Sir Gâr yn ddaearyddol enfawr a chymhleth yn ieithyddol – a'i chymunedau yn amrywio o'r trefol a diwydiannol i'r amaethyddol a gwledig. Rhaid felly, wrth wynebu heriau ieithyddol y sir fod yn barod i addasu ein cefnogaeth. Yn y bôn yr un yw'r heriau sydd gyda ni yn Sir Gaerfyrddin ag sydd mewn nifer o siroedd eraill ar draws Cymru. Mae cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yn gwegian a'r mewnlifiad cyson o hwyrddyfodiaid i'r sir yn dylanwadu yn ddi-os ar iaith yr ysgolion cyfrwng Gymraeg. Felly mae cefnogi hwyrddyfodiaid yn ein Canolfannau Iaith yn flaenoriaeth ac yn llywio ein ffocws a'n cynlluniau ar hyn o bryd.

Codi safonau'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni yw'r nod fel bod y Gymraeg yn iaith fyw a pherthnasol i bob disgybl ac athro. Rydyn ni'n gwneud ein gorau i feddwl tu fas y bocs a chefnogi ysgolion mewn ffyrdd ymarferol, hwyliog, ffyrdd sy'n briodol ar gyfer cyrhaeddiad a chefnidir ieithyddol y disgyblion â'r staff. Mae ein cefnogaeth yn golygu rhannu arfer dda ar lawr dosbarth, cynnal hyfforddiannau, trefnu cyrsiau neu gynhyrchu adnoddau arbennig i'n gwefan. Byddwn hefyd yn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg drwy fwrwm gweithgareddau'r Siarter iaith yn gystadlaethau, gweithgareddau a digwyddiadau cyson, cyffrous. Un o'n prif brosiectau ar hyn bryd yw *Law yn Llaw*. Dyma gynllun 10 wythnos ar gyfer athrawon a chynorthwyr Cyfnod Sylfaen yr Ysgolion Ail Iaith. Cyfuniad sydd yma o wersi rithiol (yn cyflwyno patrymau iaith a gweithgareddau) â chefnogaeth ieithyddol ar lawr dosbarth. Syniad syml ond mae'n gweithio'n hyfryd. Weithiau rhaid annog a chefnogi yn dawel bach er mwyn creu agwedd bositif a magu hyder unigolyn. Mae ein cefnogaeth fel Tîm Athrawon



Datblygu'r Gymraeg yn esblygu drwy'r amser. Mae angen i ni fod yn greadigol ac ymateb i'r gofyn o hyd, allwn ni ddim aros yn yr unfan. Dyna'r her.

Peth braf iawn yw cael gweithio mewn tîm sy'n cynnal a chefnogi ei gilydd a phob un ohonom â than yn ei bolie dros y Gymraeg. Wrth ddysgu iaith mae bod yn frwdfrydig, yn gadarnhaol ac yn gyfoes yn nodweddion cwbl angenrheidiol ar gyfer y swydd ond mae'n bwysig hefyd i adnabod eich ffowls a chydabod weithiau mai anogaeth dawel, gyson sydd ei angen- rhyw drip feed cadarnhaol.

Bellach mae fy rôl o fewn Tim Datblygu'r Gymraeg wedi newid. Mae arwain yn golygu mwy o gynllunio, mwy o gyfarfodydd, mwy o gysylltu a threfnu ac er fy mod i wrth fy modd â holl ofynion y swydd ac yn ystyried fy hun yn fenyw lwcus iawn, rhaid cyfadde mod i dal ar fy hapusaf ynghanol bwrlwm llond dosbarth o blant!"

Mewn Undeb mae Nerth

Bu methu cyrraedd y trothwy yn y balot i benderfynu a oedd UCAC yn streicio ai peidio yn siom fawr i lawer. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, i UCAC barhau i ymgyrchu'n ddyfal a gweithio'n galed i sicrhau gwell cynnig o ran cyflog ac amodau gwaith.

Drwy gydol mis Chwefror a mis Mawrth, bu loan a Mererid yn mynychu cyfarfodydd ac mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i drafodaethau rhwng y Gweinidog a swyddogion undebau, rhoddwyd gwell cynnig gerbron. Yn hytrach na'r cynnig gwreiddiol o godiad o 5%, nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n llwyr ariannu'r gost o godiad o 3% ychwanegol mewn cyflog yn 2022-23, ond bod 1.5% ohono yn daliad un tro yn unig – h.y codiad o 6.5% a 1.5% ychwanegol ar gyfer y flwyddyn 2022-2023 a hwnnw wedi ei ôl-ddyddio i fis Medi 2022.

Yn ogystal â'r cynnig cyflog ar gyfer 2022-23, cytunwyd hefyd y dylai Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru adolygu argymhellion ar gyflogau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023-24. Fodd bynnag, mae cynnig wedi dod gerbron bellach o 5% ar gyfer 2023-24, a byddwn yn ymgyngori ar y cynnig hwnnw maes o law.

Roeddem yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog hefyd i edrych ar lwyth gwaith a chyllid ysgolion – materion y mae aelodau dro ar ôl tro yn mynegi pryderon yn eu cylch. Edrychwn ymlaen at weld sut y bydd y gwaith hyn yn datblygu, gan roi pob sylw i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu gwireddu.

Mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd yn 'datblygu offeryn adborth fel y gall y gweithlu roi eu barn yn uniongyrchol ar weithgareddau sy'n cynhyrchu mwy o lwyth gwaith na'r budd ar gyfer dysgu a gwella.' Dylai hwn fod ar gael ym mis Medi 2023.

Nodwyd hefyd y byddai llinell asmer yn cael ei darparu ar gyfer gweddill tymor y Senedd a fyddai'n dangos y cyfnodau allweddol o ran gweithredu polisiau a rhaglenni, er mwyn rhoi eglurder ac i helpu'r proffesiwn i gynllunio. Gellir gweld y llinell amser honno yn y ddogfen 'Cenhadaeth ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb' (<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-03/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-a-dyheadau-uchel-i-bawb.pdf>)



Dweud eich Dweud – Cymwys ar Gyfer y Dyfodol

Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022, cynhaliodd Cymwysterau Cymru ymgyngoriad o'r holl bynciau TGAU a fydd yn rhan o'r cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd ar gyfer pobl ifanc 14-16. Bellach maen nhw'n ymgyngori ar y Cynnig Llawn o gymwysterau Gwneud-i-Gymru, sef y cymwysterau hynny sydd yn bodoli ochr yn ochr gyda TGAU.

Mae gan yr ymgyngoriad hwn 3 chynnig. (Ewch i [Cefndir Y Cynnig Llawn 14-16](#) | dweudeichdweud.cymwysterau.cymru i gael mwy o wybodaeth).

1. Cyflwyno Cyfres Sgiliau newydd o gymwysterau a fydd yn datblygu Sgiliau Bywyd dysgwyr a Sgiliau Gwaith dysgwyr. Bydd y rhain yn cwmpasu Lefel Mynediad i Lefel 2.
2. Darparu ystod o gymwysterau Cyn-arlwedigaethol mewn pynciau sy'n cysylltu ag ystod o feysydd gwaith a gyrfa gwahanol. Bydd y rhain yn cwmpasu Lefel Mynediad i Lefel 2.
3. Datblygu set o gymwysterau Sylfaen ar gyfer dysgwyr nad ydynt efallai'n barod i sefyll TGAU ym mhob pwnc. Bydd rhain yn cwmpasu Lefel Mynediad i Lefel 1 ac yn cysylltu â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh).

Bydd y cymwysterau hyn yn dechrau ym mis Medi 2027. Noder y bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd y Dystysgrif Her Sgiliau'n cael eu dileu. Gwn fod ysgolion wedi gweithio'n galed i wreiddio'r cymhwyster hwnnw ac rwy'n siŵr y bydd yn siom fawr i lawer ohonoch eu bod yn ystyried dileu'r cymhwyster ar ôl yr holl waith caled. Mae'r siom yn fwy o gofio mai'r argymhelliad yn Hydref 2021 oedd i 'ddiwgio'r cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau' ac nid ei ddileu.

Cofiwch ddefnyddio'r cyfle i 'Ddweud eich Dweud'. Bydd UCAC yn ymateb i'r ymgyngoriad, felly os hoffech anfon eich sylwadau atom ni, byddai diddordeb gennym i glywed gennych. Anfonwch eich sylwadau at iona@ucac.cymru

Fforwm Arweinwyr

Ydych chi'n aelod o dîm arweinyddol ysgol?

Beth am ymuno â chyfarfodydd UCAC ar gyfer arweinwyr – Y Fforwm Arweinwyr. Mae'r fforwm yn gyfle i drafod materion sy'n ymwneud yn benodol ag arweinwyr ysgol. Rydym wedi cynnal dau gyfarfod rhithiol yn ystod y flwyddyn academaidd hon ac mae nifer dda wedi ymuno â ni. Beth am ddilyn y ddolen pan ddaw'r gwahoddiad nesaf, er mwyn cael cyfle i rannu a thrafod. Cadwch eich llygaid ar agor am wybodaeth am gyfarfod neaf y Fforwm Arweinwyr.





NEGES I BOB AELOD

Iechyd Meddwl a Lles

Er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc cystal ag y gallant, mae angen i ymarferwyr addysg ofalu am eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain. I'w cefnogi, mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) wedi ymuno gydag **Education Support**, i greu **canllaw arfer da iechyd meddwl a lles**. Mae'r canllaw yn trafod hanfodion cefnogi iechyd meddwl a lles da.

Mae Education Support yn parhau ac yn ehangu ar eu cefnogaeth hanfodol i wella llesiant staff ysgol ar draws Cymru.

Bydd y Gwasanaeth Llesiant Staff yn cynnig dau wasanaeth wedi'u hariannu'n llawn i ysgolion yng Nghymru. Defnyddiwch y dolenni isod i ddod o hyd i fwy o wybodaeth.

- **Gwasanaeth Cyngori Ysgolion Rhanbarthol**
Mynediad at sgysiaau agored, gonest a heb feirniadaeth am sut i wneud gwelliannau, gyda chynghor a chefnogaeth weithredol.
- **Gwasanaethau Cefnogi a Datblygu Llesiant:**
Cyfleoedd datblygu manwl i gadw staff addysg wedi'u cymell, wedi'u hymgysylltu ac yn effeithiol yn eu rolau.

Darperir y gwasanaethau hyn diolch i ariannu Llywodraeth Cymru.

EICH AELODAETH
Cofiwch ddiweddarau eich manylion!

- Manylion cyswllt
- Cyfeiriad cartref
- Lleoliad gwaith
- Categori aelodaeth (oriau gwaith)

Mewngofnodwch i'ch cyfrif www.ucac.cymru neu cysylltwch â'r swyddfa.

Mae'n rhaid cysylltu â'r Brif Swyddfa er mwyn newid eich categori aelodaeth:
aelodaeth@ucac.cymru / 01970 639950.

Nid oes rheidrwydd ar UCAC i gymig ad-dallad os nad ydych wedi ein hysbysu o'r newid angenrheidiol.